| | |
|---|---|
| **Adroddiad i'r:** | **Pwyllgor Archwilio Partneriaethau** |
| **Dyddiad y Cyfarfod:** | **14 Mai 2015** |
| **Aelod/Swyddog Arweiniol:** | **Aelod Arweiniol Hamdden, Ieuenctid Twristiaeth a Datblygu Gwledig/Swyddog AHNE** |
| **Awdur yr Adroddiad:** | **Swyddog AHNE** |
| **Teitl:** | **Adroddiad Cynnydd 2014-15 Cyd-bwyllgor ar gyfer Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol Bryniau Clwyd a Dyffryn Dyfrdwy (AHNE)** |

---

## 1. Am beth mae'r adroddiad yn sôn?

Mae'r Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol Bryniau Clwyd a Dyffryn Dyfrdwy (AHNE) yn ymestyn o Brestatyn yn y Gogledd i Gastell Y Waun yn y De; mae'n cynnwys trefi atyniadol Llangollen a Chorwen ac yn cwmpasu 390 cilomedr sgwâr o siroedd Wrecsam, Sir y Fflint a Sir Ddinbych. Map (Atodiad 1). Mae'r mwyaf o 5 AHNE yng Nghymru ac mae'n cael ei ddiogelu'n genedlaethol a rheolir yn lleol.

O 1996 tan fis Tachwedd 2014 roedd yr AHNE yn cael ei rheoli gan Gydbwyllgor Cynghori a Chydbwyllgor Ymgynghorol Interim (CBYI), cafodd hwn ei ddisodli gan Gydbwyllgor y tri awdurdod lleol cyfansoddol. Cyfarfu am y tro cyntaf ar 14 Tachwedd 2014 ac yna penodwyd y Bartneriaeth AHNE (tebyg i'r CBYI gynt) sy'n cwrdd am y tro cyntaf yfory, 15fed Mai 2015.

## 2. Beth yw'r rheswm dros lunio'r adroddiad hwn?

Cytunwyd mewn cyfarfod Pwyllgor Archwilio Partneriaethau blaenorol y byddai Aelod Arweiniol a'r Swyddog AHNE yn rhoi diweddariad i Bwyllgor Archwilio Partneriaethau Sir Ddinbych ar gynnydd dros y 12 mis cyntaf.

## 3. Beth yw'r Argymhellion?

Bod y Pwyllgor yn archwilio, rhoi sylwadau ac yn cefnogi'r cynnydd sydd wedi'i wneud ar lywodraethu AHNE a'r prosiectau a gyflawnwyd yn ystod y 12 mis cyntaf.

## 4. Manylion yr Adroddiad

### Llywodraethu

Mae'r Cydbwyllgor wedi cwrdd ddwywaith yn y 12 mis diwethaf ym mis Tachwedd 2014 a mis Chwefror 2015, y tro cyntaf yn Rhuthun a'r ail waith yn Wrecsam. Mae'r trydydd cyfarfod ar 26 Mehefin yn yr Wyddgrug. Yn y cyfarfod cyntaf penodwyd Cadeirydd y Cydbwyllgor, y Cynghorydd Hugh Jones o Gyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam (CBSW) ac Is-Gadeirydd y Cynghorydd Huw Jones Cyngor Sir Ddinbych (CSDd).

Cytunodd y Cydbwyllgor i sefydlu Partneriaeth AHNE yn ei gyfarfod cyntaf fel y nodir yn y cytundeb cyfreithiol. Mae gan Aelodau a benodwyd i'r bartneriaeth brif gyfrifoldeb i sicrhau bod y bartneriaeth yn hyrwyddo dibenion statudol a nodir yn y Ddeddf CROW 2000. Dylent ystyried eu hunain yn gyntaf oll fel aelodau o'r Bartneriaeth, gyda dyletswydd i weithredu er budd gorau'r bartneriaeth a'r AHNE, yn hytrach na chynrychiolwyr o unrhyw sefydliad neu ddiddordeb. Cytunwyd ar 16 Aelod y Bartneriaeth (sy'n eithrio'r 9 Aelod Partneriaeth ALl) yn is-grŵp y Cydbwyllgor ar 19 Mawrth 2015.

Cytunodd y Cydbwyllgor ar y canlynol yn ei ddau gyfarfod:-

- ei Gyfansoddiad a'i Gytundeb Cyfreithiol
- hysbysebu a phenodi Partneriaeth AHNE
- ei Gyllideb
- ymgynghori ar y Cynllun Rheoli Drafft
- i dderbyn y Rhaglen Gwaith i'r Dyfodol (Atodiad 2)

Mae hefyd wedi derbyn adroddiadau ar y canlynol:-

- Cofnodion CBY interim
- Prosiect Newid Hinsawdd
- Strategaeth Twristiaeth Gynaliadwy

O ganlyniad i hynny ac o bosibl i gydnabod y berthynas waith agosach hon a phwysigrwydd yr AHNE o gwmpas Safle Treftadaeth y Byd, mae Cadeirydd y Bartneriaeth AHNE a Swyddog AHNE wedi'u penodi i Fwrdd Safle Treftadaeth y Byd.

Mae neges ariannu gadarnhaol iawn wedi'i chyfeirio gan CBSW. Cynyddodd eu cyfraniad o £5,000 y cytunwyd ar gyfer 2014-15 i £12,000 a'u cyfraniad 2015-16 i £19,000.

**Prosiect o fewn a gerllaw'r AHNE**

Mae'n hanfodol bwysig bod yr AHNE yn cysylltu i ardaloedd cyfagos, fel y gall y rhai sy'n byw yno fwynhau'r manteision a chyfrannu at y dirwedd o harddwch naturiol eithriadol, gyda hyn mewn golwg mae'r AHNE yn canolbwyntio'n benodol ar ddau faes gwaith ar gyfer y dyfodol: - Strategaeth Gwirfoddolwyr a Strategaeth Estyn Allan bydd y rhain o fudd i'r AHNE a'r boblogaeth sy'n byw o amgylch.

Dau brosiect mawr yn y Gogledd o'r AHNE a'r ardal o'i chwmpas oedd y Prosiect Lyncs Gwyrdd (Atodiad 3) a'r Ganolfan Ragoriaeth Beicio (Atodiad 4), sydd ill dau â chysylltiad agos â'r AHNE, a'r swyddogion cefn gwlad a leolir yn y Rhyl.

Cyfrannodd Llywodraeth Cymru dros £70,000 i Gronfa Twristiaeth Cynaliadwy AHNE. Dyma flas o'r 19 o brosiectau a gefnogwyd gan y Gronfa:-

- Cynlluniau Grant Cefn Gwlad i Ffermwyr, 9 prosiect wedi'u cynnal ar ffermydd ar wahân, gwella gwrychoedd; 1,760 metr o wrychoedd wedi gwella.
- Atgyweiriwyd waliau yn Llanarmon-yn-Iâl yn gweithio gyda grwpiau a busnesau lleol, 130 metr o waliau sych wedi eu hatgyweirio.

- Gwelliannau i Neuadd Bentref Pentredŵr.
- Tir ysgol Gwernymynydd ar gyfer bywyd gwyllt.
- Gŵyl Gerdded Prestatyn.
- Prosiect Teuluoedd Plas Madog.
- Brandio cig oen, cig oen bryniau Clwyd nawr ar gael yn y neuadd fwyd yn Tweedmill.
- Neuadd Bentref Pantymwyn.
- Ceidwaid Ifanc.
- Gŵyl Gerdded Llangollen.
- Llwybr Bwyd AHNE.
- Prosiect Ieuenctid Plas Madog.
- Corwen yn Croesawu'r Trên.
- Cwt y Bugeiliaid Moel Famau, mae'r cyfleuster hwn bellach yn darparu lluniaeth draddodiadol a chyflogi pobl leol ar Moel Famau.
- Cludiant cymunedol, gall cludiant fod yn rhwystr i grwpiau fynd allan, bwriad yr arian hwn oedd i helpu grwpiau gael mynediad i'r AHNE.

Mae'r Tîm AHNE wedi arwain a chefnogi nifer o brosiectau mawr eraill gan gynnwys:-

- Corwen yn Croesawu'r Trên – mae'r tîm AHNE wedi cyflawni gwaith ar y cyd â'r rheilffordd, busnesau lleol a defnyddwyr trenau i gyflawni nifer o fentrau. Roedd y rhain yn cynnwys lansiad swyddogol yr estyniad i'r rheilffordd. Presenoldeb AHNE mewn digwyddiad mawreddog rheilffordd. Busnes Corwen yn hysbysebu ar y platfform dros dro. Datblygu deunydd hyrwyddo a swfenîrs, fel cardiau post, mygiau a phlaciau. Gosod meinciau newydd ar y llwybr rhwng y rheilffordd a'r dref, ac yng nghoetir Coed Pen y Pigyn, i ddarparu gwell cyfleoedd i fwynhau arhosiad byr yng Nghorwen. (gweler y daflen)
- Gwaith adnewyddu toiledau Llandysilio a gwelliannau i'r maes parcio, dehongli a mynediad at Raeadr Bwlch yr Oernant.
- Cyfrannu at adfer Pont Gadwyn.
- Gweithio ar wella mynediad i Dŵr y Jiwbilî a gwelliannau i ddehongliad (gweler y daflen)
- Drafftio SEA, Adroddiad AHNE, Cynllun Rheoli a Chynllun Gweithredu.
- Mabwysiadu Strategaeth Twristiaeth Gynaliadwy 2015-20 ac fel rhan o'r cynllun gweithredu dyfarnu bathodyn AHNE i 5 o weithredwyr gweithgaredd yn yr AHNE.
- Llwyddodd prosiect graddfa tirwedd Alun a Chwiler i gael arian grant gan WREN ac mae staff wedi parhau i gefnogi gweithrediad y prosiect drwy swyddog prosiect Ymddiriedolaeth Bywyd Gwyllt Gogledd Cymru.

## 5. Sut mae'r penderfyniad yn cyfrannu at y Blaenoriaethau Corfforaethol?

- **Economi -** nid oes unrhyw amheuaeth bod economi twristiaeth wledig yn chwarae rhan allweddol yn llwyddiant awdurdodau gwledig; mae'r AHNE yn cefnogi'r nod hwn drwy gyflawni prosiectau a phartneriaethau.
- **Iechyd a Lles –** Caiff yr ymwelwyr a'r trigolion eu hannog i gymryd rhan mewn digwyddiadau awyr agored o addysg cerdded, beicio i ddigwyddiadau iechyd

penodol. Yn y dyfodol bydd un agwedd o waith yn canolbwyntio ar brosiect cynhwysiad ar addysg ar gyfer ardaloedd eraill o Ogledd Cymru a'r Gogledd Orllewin.

- **Cymuned -** Yn y blynyddoedd diwethaf mae Llywodraeth Cymru wedi chwarae rhan ganolog yn cefnogi AOHE trwy eu Cronfa Datblygu Cynaliadwy.

**6. Faint fydd hyn yn ei gostio a sut y bydd yn effeithio ar wasanaethau eraill?**

Sir Ddinbych yw'r Awdurdod Arweiniol ar gyfer yr AHNE fel ag y bu ers ailstrwythuro llywodraeth leol ym 1996. Bydd yn parhau i fod yn Awdurdod Arweiniol ar gyfer y Cyd-bwyllgor; ac o ganlyniad bydd yn darparu'r swyddogion canlynol ar gyfer y Cyd-bwyllgor: yr Ysgrifennydd a'r Trysorydd. Cynhelir cyfarfodydd y Cyd-bwyllgorau ym mhob Awdurdod yn eu tro; bydd yr Awdurdod a fydd yn cynnal y cyfarfod yn darparu gwasanaeth ysgrifennydd ar gyfer y cyfarfod hwnnw. Gwasanaethau'r Gyfraith a Democrataidd fydd yn bennaf gyfrifol am y costau hyn.
Bydd Sir Ddinbych yn darparu llinell gyllid ar wahân ac yn adrodd i'r Pwyllgor. Fel gyda holl Gyllidebau Cyd-bwyllgor bydd y gyllideb yn cael ei harchwilio ar wahân. Mae'r rhain yn gostau i Gyllid a Chefn Gwlad.

O ran cyllideb, mae'r cyllid presennol i'w gweld yn y cytundeb cyfreithiol. Dros y pum mlynedd nesaf bydd y gyllideb, trwy drafodaeth, yn deg rhwng y tri Awdurdod.

**7. Beth yw prif gasgliadau'r Asesiad o Effaith ar Gydraddoldeb (AEC) a gynhaliwyd ar y penderfyniad? Dylai'r templed AEC wedi'i lenwi gael ei atodi fel atodiad i'r adroddiad.**

Gweler Atodiad 5

**8. Pa ymgynghori a wnaed â'r Pwyllgorau Archwilio ac eraill?**

Ymgynghorodd y Swyddog AHNE â'r Pwyllgor Archwilio Partneriaethau yn 2014 ar y trefniadau llywodraethu newydd. Mae'r Cyd-bwyllgor yn ôl ei natur yn bartneriaeth a fydd yn arwain ar ymgynghori a gweithio gyda'r Bartneriaeth AHNE a sefydliadau eraill.

**9. Datganiad y Prif Swyddog Cyllid**

Adroddwyd am sefyllfa ariannol y Cyd-bwyllgor i bob un o'r cyfarfodydd CB a gynhaliwyd hyd yma. Mae'r cyfarfodydd wedi darparu fforwm i archwilio incwm a gwariant y Cyd-bwyllgor a hefyd i gymeradwyo'r gyllideb yn ffurfiol ar gyfer 2014/15 a 2015/16. Mae gwaith yn mynd rhagddo ar hyn o bryd i gynhyrchu cyfrifon terfynol ar gyfer y Cyd-bwyllgor sy'n cynnwys cynhyrchu datganiadau ariannol ar wahân i'r Awdurdod Lleol. Bydd y datganiadau ariannol ar gyfer 2014/15 yn cael eu cyflwyno i'r cyfarfod nesaf ym mis Mehefin ar gyfer cymeradwyaeth ffurfiol a bydd nodyn ynghylch y datganiadau yn Natganiad Cyfrifon CSDd. Mae cynnydd yn y cyfraniadau blynyddol gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam wedi'i nodi a'i groesawu.

## 10. Pa risgiau sydd yna ac a oes unrhyw beth y gallwn ei wneud i'w lleihau?

- **Ariannol -** Mae'r risg yn isel; Mae'n cael ei fonitro ac adroddir arno gan swyddogion cyllid CSDd.
- **Enw da** - Mae ffurfio'r Bartneriaeth AHNE a'r Cyd-bwyllgor yn ffurfioli'r trefniadau llywodraethu AHNE, ac yn dangos y gall awdurdodau lleol weithio mewn ffordd strwythuredig a chydweithredol.

## 11. Pŵer i wneud y Penderfyniad

11.1 Mae sail gyfreithiol i sefydlu Cyd-bwyllgor yn rhan o Adran 101 (5) Deddf Llywodraeth Leol 1972 a Deddf Llywodraeth Leol 2000, lle y gallai'r Awdurdodau Lleol ddechrau trefniadau i 'Ddirprwyo swyddogaethau ar y cyd gydag un neu fwy o awdurdodau lleol eraill ar ffurf Cyd-bwyllgor'.

11.2 Nodir pwerau archwilio o ran y partneriaethau megis yr AHNE yn Erthygl 6.1 a 6.3.4(d).

**Swyddog Cyswllt:**
Swyddog AHNE
Ffôn: 01352 810614